FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM
COFNODION A GADARNHAWYD

Pymthegfed cyfarfod ar hugain y Fforwm a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1, Neuadd y Dref, Wrecsam ar ddydd Gwener Hydref 23ain 2009 am 1.30 pm

PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Yn Bresennol:

Y LLYWYDD A'R YSGRIFENNYDD
Carla McCusker

CADEIRYDD
Mabyn Pickering

AELODAU
Sue Gittins (Dirprwy Gadeirydd)
John Cooper-Poole
Martin Howarth
Gerald Moss
Tim Stratton
Janet Williams
Mary Roberts
Mike Crawshaw

Y RHAI NAD YDYNT YN AELODAU
Sean Hanratty (WCBC)
Siôn Roberts (WCBC)
Alun Price (CCGC)

Ymddiheuriadau: Gwynfor Jones, Edward Wardle, Guy Springett

34/09 Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Nodwyd fel yr uchod.

35/09 Materion yn codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Awst 2009

Cafodd newidiad ei nodi yn y cofnodion blaenorol o dan eitem 31/09: Dylai 'Treialon Gyrru Ceffylau' fod yn ' Treialon Marchogaeth Ceffylau'.

Map Diffiniol

Dywedodd y Cadeirydd bod pedwar copi caled o'r map diffiniol a bydd pob un ohonynt ar gael cyn bo hir er mwyn i aelodau'r LAF allu eu benthyca a'u dychwelyd. Y gobaith hefyd yw y bydd y map ar gael ar-lein yn y dyfodol agos.

Gwnaethpwyd cais am ddod â chopïau caled i gyfarfodydd LAF er mwyn cyfeirio atynt yn ystod y cyfarfod. Fe gytunwyd ar hyn gan bawb a oedd yn bresennol.

36/09 Adroddiad y Cadeirydd

Roedd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Martin Howarth wedi dod at ei gilydd er mwyn cael cyfarfod anffurfiol ar Fedi 23ain 2009, i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer LAF Wrecsam a beth yw ei swyddogaeth fel pwyllgor statudol. Fe gytunwyd eisoes y byddai Uwch Swyddogion Awdurdod Lleol (Siôn Roberts a Sean Hanratty) yn bresennol am yr awr gyntaf yng nghyfarfodydd LAF o hyn ymlaen, er mwyn iddynt ateb unrhyw gwestiynau a ofynnwyd gan y rhai hynny a oedd yn bresennol.

Fe gafwyd trafodaeth ynghylch Cylch Gorchwyl y LAF, y mae'n rhaid ei ddiweddaru o bosibl. Bydd unrhyw newidiadau yn gorfod cael eu arwyddo a'u derbyn gan aelodau LAF.

Gweithredu
Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr aelodau newydd wedi derbyn copïau caled o lyfrynnau'r LAF. Cytunwyd y dylid gosod y llyfrynnau hyn ar y rhyngrwyd er mwyn i'r aelodau allu cael gafael arnynt.

Gweithredu
Carla am osod llyfrynnau'r LAF ar y rhyngrwyd ac anfon y ddolen at yr aelodau.

37/09 Adroddiad yr Ysgrifennydd

Dywedodd yr Ysgrifennydd ei bod wedi cysylltu ag Ysgrifenyddion LAF Sir y Fflint a LAF Sir Ddinbych gyda'r bwriad o drefnu cyfarfod ynghylch materion trawsffiniol. Nid yw LAF Sir Ddinbych wedi anfon ateb hyd yma; fodd bynnag cafwyd ymateb gan David Davies yn Sir y Fflint. Roedd David wedi awgrymu y dylid cynnal cyfarfod cychwynnol rhwng cadeiryddion ac Ysgrifenyddion LAF yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug.

Gweithredu
Carla am ymgysylltu â Sue Gittins, Tim Stratton a David Davies er mwyn trefnu dyddiad hwylus i gynnal cyfarfod.

38/09 Cyfarfod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyda Martin Howarth

Gweler Adroddiad y Cadeirydd.

39/09 Swyddogaeth y Tîm Cynnal a Chadw a Gorfodi (Siôn Roberts)

Siôn Roberts yw Arweinydd y Tîm Cynnal a Chadw a Gorfodi, a chafodd ei gyflwyno i'r grŵp. Mae Siôn wedi cymryd yr awenau gan John Merchant yn y maes cynnal a chadw. Mae gan y tîm bedwar aelod ar hyn o bryd (Siôn, Alison, Dave a Charlotte). Y gobaith yw y bydd rhodiwr mynediad rhan amser arall yn cael ei benodi yn y dyfodol agos.

Eglurodd Siôn y bydd 40% o waith ROWIP wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2009. Mae'r gwaith â Groundwork ar fin dechrau yn Broughton. Fe wnaethpwyd gwelliannau ar Glawdd Offa lle cafodd gatiau mochyn newydd, cryfach, eu gosod. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo mewn perthynas â thrwsio pontydd troed. Mae nifer o wirfoddolwyr yn gweithio ar amryw brosiectau. Mae gwe-dudalen yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd er mwyn rhoi clod i'r gwirfoddolwyr.

Nodwyd y bydd teithiau cerdded tywysedig yn cael eu cynnal ar ddydd Iau cyntaf pob mis o fis Ebrill tan fis Medi. Bydd oddeutu 10-15 person, ar gyfartaledd, yn cymryd rhan yn y teithiau cerdded tywysedig.

Fe soniwyd am ddiraddio llwybr ceffylau yn llwybr troed ym Mrymbo. Dywedodd Tim bod yn rhaid datgloi clo clap er mwyn i reidwyr ceffylau allu mynd ar hyd y llwybr.

Gweithredu
Tim a Siôn am ymgysylltu ynghylch y mater hwn.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau roi gwybod i Siôn am unrhyw arwyddbyst wedi torri er mwyn iddo allu mynd i'r afael â'r mater o ganlyniad i hynny. Gellir ffonio Siôn Roberts yn Ffordd yr Abaty ar 01978 729766.

Diolchodd y Cadeirydd i Siôn am ei gyfraniad at y cyfarfod.

40/09 Sefydlu Aelodau Newydd – Map Diffiniol (Sean Hanratty)

Rhoddodd Sean gyflwyniad i'r grŵp, a chafodd taflen eu dosbarthu iddynt er gwybodaeth.

Dywedodd Sean wrth yr aelodau mai ei adran ef sy'n gyfrifol am arolygu'r map diffiniol ac am gadw'r map diffiniol a'r datganiad gyda'i gilydd. Os oes tystiolaeth i brofi na ddylid cael gorchymyn, yna gellir dileu hyn oddi ar y map; fodd bynnag byddai'n rhaid dilyn y broses gyfreithiol gywir. Mae unrhyw newidiadau a wneir yn y map yn gofyn am broses sy'n debyg i gais cynllunio. Fe gynhelir trafodaeth anffurfiol yn y lle cyntaf gyda'r tirfeddiannwr, ac yna fe ymgynghorir â grwpiau cymunedol fel y Cerddwyr. Fe roddir hysbysiad yn y papurau newydd lleol sy'n dweud beth yw'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau. Ar ben hynny fe

roddir hysbysiadau wrth fan cychwyn ac wrth ben draw unrhyw lwybrau troed sy'n ymgyfuno ar hyd y ffordd.

Gofynnodd aelodau'r grŵp a oes unrhyw ymgysylltu'n digwydd â'r OS ac a yw'r cyhoedd yn cael gweld y map diffiniol. Dywedodd Sean os bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno gorchymyn yna maent hwy dan orfodaeth gyfreithiol i roi gwybod i'r OS. Bydd y map diffiniol ar gael ar-lein yn y dyfodol agos er mwyn i'r cyhoedd allu ei weld.

Gellir cysylltu â Sean Hanratty yn Ffordd yr Abaty ar 01978 729761.

Diolchodd y Cadeirydd i Sean am ei gyfraniad at y cyfarfod.

41/09 Adroddiad gan y Rhodwyr Mynediad

Trafodwyd o dan eitemau 39/09 a 40/09.

42/09 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Rhoddodd Alun Price yr wybodaeth ddiweddaraf a'r newyddion diweddaraf gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Dywedodd Alun fod y CCGC a Wrecsam yn cydweithio – a mae'r CCGC yn rhoi cymorth ac yn gweithio yn adran Gwasanaethau Cefn Gwlad.
Fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa ariannol sydd ohoni ar hyn o bryd, mae cwtogiadau ar fin digwydd. Fel arfer bydd y CCGC yn gweithredu yn ôl rhaglen dair blynedd, a gytunir ymlaen llaw, fodd bynnag, bydd cyllid canolog CCGC yn gostwng o £7 miliwn i £5 miliwn.

Roedd Mike yn pryderu am faint y difrod a achosir gan gerddwyr ar drum y Berwyn. Eglurodd Alun fod gwaith adfer wedi cael ei wneud yn flaenorol ar y drum, fodd bynnag efallai y bydd rhaid bwrw golwg arall ar hyn.

Gofynnodd Sue a oedd papur ymgynghori wedi cael ei gyhoeddi ynghylch yr adroddiad ar ddyfroedd mewndirol, gan nad yw rhai o'r LAF wedi cael adroddiad hyd yn hyn. Dywedodd Alun y dylai ardaloedd rhagbrofol penodol fod yn trin a thrafod hyn.

<u>Gweithredu</u>
Alun am holi a yw Wrecsam yn rhan o'r ardal ragbrofol hon.

43/09 Datblygiadau Diweddar parthed: Cŵn a Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Cafodd dogfen ei dosbarthu i'r grŵp ar ran Gwynfor Jones.

Rhoddodd Sue arolwg ar gyfarfod y Cadeiryddion yr aeth hi iddo'n ddiweddar yn Llanfair-ym-Muallt, ar ran y Cadeirydd. Prif thema'r cyfarfod oedd cŵn yng nghefn gwlad a'r ffaith bod angen i'r holl gŵn gael eu hyswirio a bod microsglodyn yn cael ei roi arnynt. Ar ben hynny dylid diwygio Rheolau Cefn Gwlad er mwyn iddynt

gynnwys adran gynhwysfawr ynghylch cŵn. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu rhoi gerbron y Fforwm Mynediad Cenedlaethol a gynhelir ym Mangor ar Dachwedd 10fed 2009.

Dywedodd Sue bod arolwg ar hamddena yn yr awyr agored, wedi cael ei gynnal yng Nghymru. Roedd hwnnw wedi dod i'r casgliad bod 31% o bobl ond yn mynd allan i gerdded oherwydd eu cŵn ac yn ôl pob tebyg byddant i'w gweld yn cerdded mewn coetir neu goedwig.

Fe gynhaliwyd gwaith ymchwil ledled yr awdurdodau yng Nghymru, ynghylch Gorchmynion Rheoli Cŵn a Deddf Cymdogaethau Glân. Yr unig awdurdodau sydd wedi mabwysiadu'r ddeddfwriaeth yw'r rhai hynny mewn ardaloedd arfordirol, sydd ag is-ddeddfau i atal cŵn rhag baeddu ar draethau.

Fe gadarnhaodd Martin fod yr awdurdod wedi mabwysiadu Gorchmynion Rheoli Cŵn ar lawntiau bowlio, caeau pêl-droed a lleoedd chwarae i blant yn Wrecsam. Mewn rhai ardaloedd neilltuol gall yr awdurdod wneud cais am roi cŵn ar dennyn, yn enwedig felly os ydynt yn achosi problemau, fodd bynnag gall hyn beri i'r cyhoedd ymateb yn ddifrïol. Fe awgrymodd aelodau'r grŵp bod angen cynyddu ymwybyddiaeth, er enghraifft, ffilmiau addysgol a gosod arwyddion mewn ardaloedd sy'n croesawu cŵn. Dywedodd Martin fod arwyddion wedi cael eu gosod eisoes mewn parciau fodd bynnag nid yw'r cyhoedd wastad yn ufuddhau iddynt.

Fe nodwyd bod cŵn i fod i gael eu rhoi ar dennyn pan maent ar dir mynediad agored fodd bynnag mae'n anodd deddfu hyn am nad oes digonedd o wardeiniaid i ategu a sicrhau bod hyn yn digwydd. Dywedodd John Evans bod arwyddion melyn dwyieithog ar fin cael eu gosod, ac arnynt mae'r geiriau 'Gall eich ci ddychryn neu niweidio anifeiliaid fferm' – ac fe ddosbarthwyd copïau o'r arwyddion.

Dywedodd Alun fod y CCGC wedi cyhoeddi cyfarwyddyd ynghylch cŵn a hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r cyfarwyddyd hwn wedi mynd trwy broses deddfwriaeth CROW.

44/09 Unrhyw Fater Arall

Llwybr Dyffryn Ceiriog

Awgrymodd Gerald y dylid sefydlu is-bwyllgor er mwyn iddo gerdded ar hyd y llwybrau troed yn Nyffryn Ceiriog. Fe gytunwyd y byddai Gerald yn ymgysylltu â John Cooper-Poole, George a Natalie yn hyn o beth.

Gweithredu
Gerald am anfon adroddiadau am Lwybr Dyffryn Ceiriog at Carla er mwyn iddi eu dosbarth i'r aelodau cyn y cyfarfod nesaf. Bydd yr eitem hon yn cael ei rhoi ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus 2007

Mae Cynllun Gwella ROW 2007 ar gael ar y rhyngrwyd bellach, ac mae copi caled ohono ar gael gan Martin hefyd. Mae'r awdurdod wrthi'n trin a thrafod a allai'r Waun fod yn gynllun llwybrau troed cymunedol. Y gobaith yw y bydd Dyffryn Ceiriog yn cael ei ystyried yn y dyfodol ond mae'n bur debyg y bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gam wrth gam, oherwydd maint y dyffryn.

Cerddwyr

Awgrymodd John Cooper-Poole y dylai'r Cerddwyr ddod i un o gyfarfodydd y LAF er mwyn rhoi hyfforddiant. Roedd y grŵp yn cytuno y byddai hyn yn fanteisiol i'r aelodau.

Cyfarfodydd Cadeiryddion LAF

Dywedodd y Cadeirydd bod y LAF ond yn gallu anfon y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd i gyfarfodydd Cadeiryddion LAF. Aeth Sue i'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-Muallt ar Hydref 14eg 2009, ar ran Mabyn a oedd yn methu bod yn bresennol.

Cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Cenedlaethol

Caiff holl aelodau'r LAF fynd i'r cyfarfod hwn. Fe wnaeth Tim Stratton wirfoddoli i fynd i'r cyfarfod nesaf a gynhelir ar Dachwedd 10fed 2009 ym Mangor.

Gororau Gogleddol Cymru

Dywedodd Sue wrth yr aelodau bod Gororau Gogleddol Cymru yn cymeradwyo a dosbarthu arian datblygu cefn gwlad. Ar hyn o bryd mae dau brosiect ar fynd; un ohonynt yw prosiect diogelwch ceffylau a gydlynir gan Yvonne Palmer, Swyddog Diogelwch Ceffylau yn AVOW. Mae Yvonne yn fodlon mynd i un o gyfarfodydd LAF er mwyn rhoi gwybodaeth am y prosiect, sydd â'r nod o hybu marchogaeth diogelach trwy annog reidwyr ceffylau yng Nghefn Gwlad Wrecsam i gymryd rhan mewn hyfforddiant a phrawf marchogaeth a diogelwch y ffyrdd gan y BHS, a gynhelir mewn canolfannau marchogaeth lleol. Bwriad arall y prosiect hwn yw gwneud pobl eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd, yn fwy ymwybodol o anghenion a diogelwch y reidwyr ceffylau.

Gweithredu
Carla am wahodd Yvonne Palmer i ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

Reidio oddi ar y ffordd

Soniodd Gerald am grŵp o'r enw NWAIMOR a sefydlwyd gan Max Grant; fe sefydlwyd y grŵp yng Nghymru er mwyn iddo fynd i'r afael â materion llosg reidio oddi ar y ffordd. Awgrymodd Gerald y dylid gwahodd Max Grant i ddod i un o'r cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gweithredu
Carla am wahodd Max Grant i ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

Swyddog Cynllunio Tirweddau

Mae'r Swyddog Cynllunio Tirweddau yn mynd i gael gwahoddiad i ddod i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf un am yr ardaloedd o harddwch eithriadol yn y sir.

Priffyrdd

Bu Tim yn mynegi pryder am yr ymateb gwael y mae rhai aelodau Llwybrau Ceffylau wedi ei gael ynghylch y wynebau llithrig ar ffyrdd di-ddosbarth. Mae'r pryderon yn cael eu trin a'u trafod yn anffurfiol ar hyn o bryd fodd bynnag os bydd rhaid defnyddio dull ymdrin mwy ffurfiol, yna efallai bydd gofyn i'r LAF fod â rhan yn hyn. Awgrymwyd y dylid rhoi gwahoddiad i'r Adran Priffyrdd ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

Teithiau Cerdded Am Ddim yn Wrecsam

Dywedodd Natalie wrth yr aelodau bod yr arian am deithiau cerdded am ddim yn Wrecsam yn dod i ben ym mis Mawrth 2010. Bydd Natalie'n rhoi'r holl wybodaeth fanwl am hyn yn y cyfarfod nesaf.

Cyfarfodydd yn yr Awyr Agored

Dywedodd Tim bod cyfarfodydd yn yr awyr agored yn rhoi hwb go iawn ichi, yn enwedig felly pan ydych yn trafod pethau â phobl sy'n ymwneud â'r awyr agored. Awgrymwyd y dylid rhoi gwybod i'r Cynghorau Cymuned perthnasol, cyn y cynhelir un o gyfarfodydd y LAF yn yr awyr agored.

Gweithredu
Carla am gysylltu â'r Cynghorau Cymuned perthnasol pan fydd cyfarfodydd LAF ar fin cael eu cynnal yn yr awyr agored.

45/09 Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf

- Natalie Edwards – Teithiau Cerdded Am Ddim yn Wrecsam
- Y Cerddwyr – Hyfforddiant
- Reidio Oddi ar y Ffordd – Max Grant

Byddwch cystal ag anfon yr eitemau agenda at Carla o leiaf pythefnos cyn y cyfarfod nesaf.

46/09 Dyddiadau a Lleoliadau'r Cyfarfodydd Nesaf yn 2010

Chwefror 5ed 2010, 1.30pm, Neuadd y Dref

Mai14eg 2010, Canolfan Addysg Nant y Felin, Coedpoeth, yr amser i'w gadarnhau.

Awst 6ed 2010 – Tir Gofal, Dyffryn Ceiriog, yr amser i'w gadarnhau.

Tachwedd12fed 2010 – y lleoliad a'r amser i'w cadarnhau.